# CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
# PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL
# A GYNHALIWYD AR 12 MAWRTH 2024 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Cyng. Peter Hughes Griffiths fu'n cadeirio'r cyfarfod.

**PRESENNOL**: Cynghorwyr: Dai Evans (fideo), Peter Hughes Griffiths (fideo), Angharad Jones Leefe (fideo), Alun Lenny (fideo), Miriam Moules (fideo), Russell Sparks (fideo), Wyn Thomas, a Barry Williams (fideo).

Emma Smith – Clerc i'r Cyngor Tref
Tudur Jones – Cyfieithydd

**359. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Arwel Lloyd ac Emlyn Schiavone.

**360. Datgan buddiannau.**

(i) Y Cyng. Russell Sparks ar gyfer eitem 361 fel aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

**Adroddiad Clerc y Dref**

**361. Ceisiadau Cynllunio**

i. **PL/07347** - Cais Cynllunio Llawn ar gyfer Gosod 1 rhif. Adeilad Portacabin i'w ddefnyddio fel gofod swyddfa/ymgynghori ychwanegol - Canolfan Filfeddygol ac Ysbyty Caerfyrddin, Llanllwch, Caerfyrddin, SA31 3SA – **DIM GWRTHWYNEBIAD**
ii. **PL/07338** - Garej Ategol Arfaethedig i storio a chynnal casgliad ceir clasurol yr ymgeisydd - Hafod Hedd, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3QU - **DIM GWRTHWYNEBIAD**
iii. **PL/07317** - Caban symudol unllawr newydd ar gyfer Canolfan Adfer Trawma Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro - Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Heol Dolgwili, Caerfyrddin, SA31 2AF- **DIM GWRTHWYNEBIAD**
iv. **PL/07278** - Sied unllawr arfaethedig i ddarparu lle storio yn yr ardd gefn - 14 Barnsfield Terrace, Caerfyrddin, SA31 1DJ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**
v. **PL/07048** - Estyniad ochr unllawr - 2 Hafod Cwnin, Caerfyrddin, SA31 2AU - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

**362. Materion Priffyrdd**

Dim

**363. Materion Trwyddedu**

Dim

**364. Basgedi Crog**

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod BID Caerfyrddin wedi cytuno i ariannu 220 o fasgedi crog, planwyr haenau ychwanegol a thalu am y gost o gyflogi trydydd parti i dŵrhau'r basgedi a'r planwyr yn ardal y BID ar gyfer 2024. Byddent hefyd yn trefnu dŵrhau'r basgedi  y tu allan i ardal y BID, y byddai'r gost yma yn cael ei dalu gan y Cyngor Tref.

Nododd y Cadeirydd, y Cyng. Peter Hughes Griffiths ei gefnogaeth i'r gwaith partneriaeth cymunedol ac roedd yn ddiolchgar am y buddion a ddaeth i'r gymuned.

**ARGYMHELLWYD** yr Aelodau y dylai'r Cyngor gefnogi'r bartneriaeth.

**365. Cyfraith Martyn – Ymgynghoriad Haen Safonol**

Eglurodd y Clerc y cefndir i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar y Bil Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) newydd. Byddai'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar bob eiddo sydd â chapasiti o 100+ o bobl gyda haen uwch ar gyfer eiddo o gapasiti o 800+. Cafwyd trafodaeth, a **NODODD** yr aelodau yr ymgynghoriad. Bydd y Clerc yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau wrth i'r mesur fynd trwy'r senedd ac wrth i ofynion y ddeddfwriaeth gael eu cwblhau.

**366. Wal Parc Hinds**

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Cadw a Swyddog Treftadaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yn dilyn cwymp pellach i wal Parc Hinds. Trafodwyd cyllid cyfrifoldeb ar gyfer y gwaith a **CHYTUNWYD** y byddai diogelwch y wal a phobl yn y parc yn cael ei flaenoriaethu gyda thrafodaethau ynglŷn â pherchnogaeth a chyfrifoldeb i ddilyn gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.

**367. Adroddiad Swyddog Llesiant Cymunedol a Digwyddiadau**

**NODODD** yr Aelodau yr adroddiad a chanmol y gwaith cadarnhaol sy'n digwydd ledled y gymuned gyda sefydliadau partner..

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:12yh**